

Adolygiad o arferion a chefnogaeth ar gyfer Bwydo ar y fron yn y lleoliadau Mamolaeth a Blynnyddoedd Cynnar yng Nghymru

Grŵp Gorchwyl a Gorffen – Adroddiad ac argymhellion

Diben

Mae cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru wedi aros yn weddol sefydlog er gwaethaf y buddsoddiad mewn gwasanaethau ac achrediad menter cyfeillgar i fabanod UNICEF. Cydnabyddir bod hwn yn fater amlweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd y boblogaeth, dechrau bwydo ar y fron a dal ati i fwydo ar y fron. Mae'r agweddau a'r arferion diwylliannol ehangach yn parhau i ddylanwadu ar y ffordd y gallai menyw ddewis bwydo ei babi, ac os yw hi'n dewis bwydo ar y fron, ar ba mor hir y bydd hi'n parhau i wneud hynny. Cynnydd cyfyngedig a welwyd yn y cyfraddau bwydo ar y fron yn ystod y degawd diwethaf; felly credir yn gryf fod angen dulliau newydd gan na fyddai mân addasiadau yn ddigonol i ysgogi'r newid sydd ei angen. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig argymhellion sy'n adlewyrchu'r angen brys am ddatrysiadau beiddgar ac arloesol yng Nghymru.

Mae bwydo ar y fron yn bwysig i iechyd a datblygiad babanod a'u mamau, ac mae'n gysylltiedig ag atal anghydraddoldebau iechyd sylweddol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn dweud bod bwydo ar y fron yn gonglfaen ar gyfer goroesiad, maeth a datblygiad y plentyn ac iechyd y fam. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymhell bwydo ar y fron yn unig am chwe mis cyntaf bywyd plentyn, wedi'i ddilyn gan barhau i fwydo ar y fron ynghyd â rhoi bwydydd ategol priodol am hyd at 2 flynedd neu fwy (WHO, 2003). O ran yr ethos hwn a'r gred y dylai pob plentyn yng Nghymru gael y dechrau gorau mewn bywyd (Deddf Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015), mae bwydo ar y fron yn gallu rhoi dechrau gwell i blentyn mewn bywyd. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai nad yw pob menyw yn dewis bwydo yn y modd hwn. Mae'n hollbwysig bod gan bob teulu fynediad at ddigon o wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniad deallus, a'u bod yn cael eu cefnogi ym mha bynnag ddewis y maent yn ei wneud.

Yn dilyn cyfarfod rhwng Coleg Brenhinol y Bydwagedd ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar y pryd ar 12 Mehefin 2017, lle mynegwyd pryderon ynghylch cyfraddau dechrau bwydo ar y fron a dal ati yng Nghymru, gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet am adolygiad. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys arweinwyr clinigol, cyrff proffesiynol, iechyd cyhoeddus, mamau a swyddogion Llywodraeth Cymru, a fu'n cyfarfod ddwywaith y mis rhwng mis Medi 2017 a mis Ionawr 2018. Diben y grŵp oedd:

Cynnig argymhellion ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol, a sut y dylid eu targedu er mwyn cefnogi menywod a gwella cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru, drwy hyrwyddo dechrau bwydo ar y fron, dal ati i fwydo ar y fron a chael gwared ar rwystrau, ac yn y modd hwn, sicrhau agwedd ddarbodus.

Cyd-destun

Mae bwydo ar y fron yn ffenomen gymdeithasol ac yn ffenomen iechyd y boblogaeth, ac mae amrywiaeth eang o ffactorau yn dylanwadu arno a'i ysgogi. Dyna pam y mae

llawer o asiantaethau yn gwneud gwaith i'w hyrwyddo, ei ysgogi a sicrhau ei fod yn digwydd yn llwyddiannus. Mae'r gwaith a wnânt yn ymwneud â chynrychiolaeth gan y cyfryngau, addysg mewn ysgolion, agweddau diwylliannol, lleoedd i fwydo ar y fron yn y gymuned leol a chymorth i ddechrau bwydo ar y fron a dal ati. Wrth adolygu'r gefnlen o ffactorau dylanwadol a'r amrywiaeth o waith sydd eisoes ar y gweill, canolbwyntiodd y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau Mamolaeth a Blynnyddoedd Cynnar, gan edrych ar fframweithiau strategol a gweithredol, rhannu modelau arferion gorau, sicrhau ansawdd a gwerthuso. Yn ystod yr adolygiad, roedd unrhyw ddefnydd o'r term 'bwydo babanod' yn cyfeirio at gyd-destun maethiad cynnar, a hynny gyda llaeth o'r fron neu fformiwla.

Disgwylir y bydd maes ehangach iechyd y boblogaeth, gan gynnwys swyddogaeth mentrau iechyd cyhoeddus cyffredinol, a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol a arweinir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, yn cael ei archwilio o fewn y cynllun gweithredu ar gyfer Cymru, os cytunir arno. Prif argymhelliad yr adroddiad hwn yw datblygu cynllun gweithredu traws-sector. Bydd y cynllun gweithredu arfaethedig hwn yn edrych yn fanylach ar y sail dystiolaeth a meysydd o arferion gorau, gan edrych ar fodelau o wledydd eraill er mwyn rhoi safbwynt byd-eang.

Cefndir

Yn 2001, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru strategaeth '**Buddsoddi mewn Gwell Cychwyn: Hybu Bwydo ar y Fron yng Nghymru**'. Nod y strategaeth oedd:

- Cynyddu nifer y rhai sy'n dechrau bwydo ar y fron ac yn dal ati yng Nghymru.
- Annog gweithwyr iechyd proffesiynol mewn ysbytai ac yn y gymuned, grwpiau gwirfoddol a mamau sy'n bwydo ar y fron i gydweithio i sicrhau bod rhagor o fenywod yn dechrau bwydo ar y fron ac yn dal ati.
- Lleihau'r anghydraddoldeb presennol mewn iechyd a chau'r bwlch rhwng yr ardaloedd sydd â'r cyfraddau bwydo ar y fron mwyaf a lleiaf.
- Sicrhau bod menywod sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth ac sy'n dymuno bwydo ar y fron yn cael digon o gefnogaeth gan eu cyflogwyr.
- Yn y tymor hwy, hyrwyddo'n gyffredinol ddiwylliant o dderbyn pwysigrwydd bwydo ar y fron yn y gymuned.

Yn 2003, penodwyd cydgysylltydd bwydo ar y fron cyntaf Cymru i ddatblygu strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y mamau sy'n bwydo ar y fron a'r cyfnod o amser y byddant yn bwydo ar y fron. Bu'r cydgysylltydd yn gweithio gyda grwpiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn cynnwys pobl broffesiynol, grwpiau gwirfoddol a mamau a oedd yn bwydo ar y fron, i annog cefnogaeth barhaus i famau sy'n bwydo ar y fron. Roedd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod Cymru yn datblygu proffil uwch mewn cyrff y DU a chyrrff Ewropeaidd.

Yn 2011, nododd dogfen Cynulliad Cymru, '**Iechyd Tecach i Bawb: Cynllun Gweithredu Strategol Lleihau Annhegwch ym Maes Iechyd**', gamau gweithredu yn gysylltiedig â bwydo ar y fron er mwyn datblygu ymagweddau addysgu gan gymheiriaid (bwydo ar y fron) a fyddai'n cael eu datblygu ymhellach yn y cynlluniau gweithredu Ansawdd Bwyd a Hyrwyddo Iechyd Meddwl (Cam 3.5), a thrwy weithio gyda phartneriaethau iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Byrddau Iechyd Lleol a phartneriaid eraill.

Nodwyd yn **Gweledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (2011)** fod angen cymryd camau ychwanegol i gynyddu nifer y menywod sy'n bwydo ar y fron, ac y dylid darparu ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau er mwyn ysgogi rhagor o fenywod i ddechrau bwydo ar y fron a dal ati. Ystyriwyd bod ymgysylltu â'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod yn un ffordd o gyflawni hyn.

Yn y cyd-destun ehangach, caiff bwydo ar y fron ei nodi yn un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at leihau gordewdra ymysg plant, ac mae Deddf Lechyd Cyhoeddus Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru greu "strategaeth genedlaethol i atal gordewdra a lleihau lefelau gordewdra yng Nghymru". Daeth y gofyniad i rym ym mis Hydref 2017, ac mae cyfnod pontio o ddwy flynedd i ddatblygu strategaeth, ac ymgynghori a chraffu arni. Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth gordewdra yn cael ei oruchwylio gan fwrdd rhaglen a gadeirir gan Brif Swyddog Meddygol Cymru. Mae swyddogion wrthi'n datblygu sylfaen dystiolaeth gref ac yn ystyried ymhle y gallai ymyraethau a mentrau effeithiol gael effaith sylweddol, gan gynnwys cynnal dau gyfarfod i randdeiliaid ym mis Chwefror. Bwriedir lansio'r strategaeth ar gyfer ymgynghoriad yr haf hwn.

Gwybodaeth i fenywod




Darperir gwybodaeth i fenywod ar hyn o bryd yn ogystal â dolenni i sefydliadau cynorthwyol drwy wefannau Byrddau Lechyd ac Lechyd Cyhoeddus Cymru: Llaeth Mam – Mother's Milk
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/61625/>

Rhoddir y llyfr 'Naw Mis a Mwy' a gyhoeddir gan Lechyd Cyhoeddus Cymru i bob menyw feichiog yng Nghymru ac mae'n darparu gwybodaeth am fuddion o fwydo ar y fron yn ogystal â chyngor a chymorth: <http://www.wales.nhs.uk/dogfen/85010>

Data presennol

Chart 16: Percentage of babies exclusively breastfed or receiving any breast milk from birth to age 6-8 weeks, 2016



Source: National Community Child Health Database (NCCHD) 2016

Note that ABMU Local Health Board is excluded from this chart, see notes.

Note that the percentage is of 23,396 records with complete data for infant feeding at birth, 10 days and 6-8 weeks

<p>Chart 16 Percentage of babies exclusively breastfed or receiving any breast milk from birth to age 6-8 weeks, 2016</p> <p>Percentage of live birth Breastfeeding at birth Breastfeeding at 10 days Breastfeeding at 6-8 weeks Any breastfeeding Exclusive breastfeeding Source: National Community Child Health Database (NCCHD) 2016</p> <p>Note that ABMU Local Health Board is excluded from this chart, see notes.</p> <p>Note that the percentage is of 23,396 records with complete data for infant feeding at birth, ten days and 6-8 weeks</p>	<p>Siart 16 Canran y babanod a gafodd eu bwydo ar y fron yn unig neu a gafodd eu bwydo â llaeth o'r fron mewn unrhyw ffordd o'i geni hyd at oedran 6-8 wythnos, 2016</p> <p>Canran y genedigaethau byw Bwydo ar y fron ar enedigaeth Bwydo ar y fron yn 10 diwrnod oed Bwydo ar y fron yn 6-8 wythnos oed Unrhyw fwydo ar y fron Bwydo ar y fron yn unig Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol (NCCHD) 2016</p> <p>Sylwer nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi'i gynnwys yn y siart hwn, gweler y nodiadau.</p> <p>Sylwer bod y ganran o 23,396 o gofnodion â data cyflawn am fwydo'r baban ar ôl geni, yn 10 diwrnod oed ac yn 6-8 wythnos oed</p>
---	---

Cesglir data ar hyn o bryd drwy systemau iechyd mamolaeth a phlant ledled Cymru. Mae'r systemau hyn o fewn y Byrddau Iechyd a chesglir y data yn ganolog. Er y ceir isafswm o ran y set ddata, mae yna botensial ar gyfer amrywiad yn y cwestiynau megis cyfraddau dechrau bwydo ar y fron. Gall yr amrywiad hwn o ran dehongli fod oherwydd bod babi wedi ei roi ar y fron ond wedi dangos ychydig iawn o ddi-ddordeb, neu ei fod wedi sugno'n dda am gyfnod o amser. Mae cynlluniau eisoes ar y gweill i adolygu'r ddwy system mewn perthynas â setiau data, er mwyn datblygu 'Gweledigaeth Mamolaeth Ddarbodus' newydd ac edrych ar ddata sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bwriedir i'r gwaith hwn gael ei wneud eleni.

Argymhelliad 1

Sicrhau bod systemau a phrosesau clir ar waith i gasglu, dadansoddi a dosbarthu data ar fwydo babanod.

Cyfeiriad strategol a fframwaith

Llywodraeth Cymru

Mae'r cyfrifoldeb strategol dros fwydo ar y fron yn y lleoliadau Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar wedi'i drosglwyddo o Adran Iechyd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru i swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, er mwyn cydweddu ag arweinydd y polisi ar gyfer Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar. Mae'r gwaith hwn wedyn wedi'i ddatganoli i Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy gytundeb lefel rhaglen, er mwyn darparu arweinyddiaeth genedlaethol a chomisiynu swyddogaethau'r rhaglen genedlaethol ar gyfer bwydo ar y fron.

Strwythurau cyflawni lechyd Cyhoeddus Cymru

Mae cynyddu cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth i lechyd Cyhoeddus Cymru, sydd wedi bod yn gyfrifol am y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Bwydo ar y Fron ers 2011.

Yn 2013, adolygwyd yr holl raglenni gwella iechyd gan gynnwys y rhaglen Bwydo ar y Fron yn yr adolygiad Trawsnewid Gwella lechyd yng Nghymru. Ystyriodd yr adolygiad y cyfeiriad ar gyfer gwella iechyd yn y dyfodol, ynghyd yr angen i adolygu'r maes hwn o waith i adlewyrchu'r dystiolaeth a'r blaenoriaethau presennol. Amlygodd yr angen i fwydo ar y fron gael ei ymwreiddio yn rhan o ddull seiliedig ar systemau er mwyn cyflawni'r effaith orau bosibl, ac mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithredu'r dull hwn. Yn rhan o'r gwaith hwn, caiff bwydo ar y fron ei hyrwyddo a'i normaleiddio ym mhob un o raglenni gwaith lechyd Cyhoeddus Cymru ac mae trefniadau staffio wedi eu newid i adlewyrchu hyn.

Mae enghreifftiau o'r dull seiliedig ar systemau'n cynnwys Rhaglen Lleoliadau'r GIG, sy'n parhau i gefnogi Byrddau lechyd i ennill a chadw achrediad Cyfeillgar i Fabanod y DU UNICEF, ac ar hyn o bryd mae cerdyn adrodd Bwydo ar y Fron yn cael ei ddatblygu i fesur llwyddiant, rhannu arferion da a nodi meysydd sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Bydd bwydo ar y fron hefyd yn cael ei ymwreiddio i'r Rhaglen Lleoliadau Addysgol, Rhaglen Waith y Blynyddoedd Cynnar, Rhaglen lechyd yn y Gwaith, Cymunedau Iach, Rhaglen Maethiad a Gordewdra, lles meddyliol a mentrau datblygu.

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n asesu bwydo ar y fron yng Nghymru yn rhan o fenter fyd-eang – y prosiect 'Becoming Breastfeeding Friendly'. Nod y prosiect hwn yw cryfhau amddiffyniad a chymorth ar gyfer bwydo ar y fron, a'i hyrwyddo; mae'n darparu dull i wledydd asesu eu sefyllfa bresennol yn ôl 8 maes allweddol neu gêr ac yn awgrymu'r camau nesaf i'w cymryd pan nodir bylchau.

Mae Fforwm Bwydo ar y Fron Cymru gyfan sy'n ymgorffori arweinwyr ar fwydo, mamau, academyddion a chefnogwyr cymheiriaid wedi cyfarfod dros y blynyddoedd ac wedi bod yn allweddol mewn nifer fawr o ddatblygiadau, gan gynnwys pecyn hyfforddi ar gyfer bwydo ar y fron a sefydliadau cyfeillgar i fabanod, lle mae croeso i famau fwydo eu plant. Mae'r grŵp wedi gweithio'n agos gyda chydgyssylltydd bwydo ar y fron Llywodraeth Cymru, ac yn ddiweddar, wedi gweithio gydag arweinwyr lechyd Cyhoeddus Cymru.

Argymhelliad 2:

Sefydlu grŵp llywio strategol i sicrhau bod dull Cymru gyfan ar waith i wella cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru. Bydd y Grŵp Llywio Strategol yn gosod cyfeiriad strategol ac yn cynghori'r llywodraeth ar y cyfeiriad yn y dyfodol, gan gynnwys dulliau iechyd y boblogaeth a darparu gwasanaethau.

Argymhelliad 3:

Sefydlu Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru, er mwyn darparu arweinyddiaeth weithredol i wella cyfraddau bwydo ar y fron. Bydd y rhwydwaith yn cynghori'r Grŵp Llywio Strategol ac yn gwneud gwaith ar ei ran, a bydd yn atebol i'r grŵp ac yn cysylltu â gwledydd eraill y DU.

Argymhelliad 4:

Creu a sefydlu swydd newydd ar gyfer arweinydd strategol bwydo babanod ym mhob Bwrdd Iechyd, er mwyn cynnig arweinyddiaeth strategol ar draws gwasanaethau'r Byrddau Iechyd, gan gynnwys mamolaeth, gwasanaeth i'r newydd-anedig, pediatreg a gwasanaethau cymunedol. Caiff y swydd hon ei chreu i sicrhau arweinyddiaeth strategol yn y byrddau iechyd ar gyfer bwydo ar y fron ac atebolrwydd i'r cyfarwyddwr nyrsio.

Enghreiffiau o arferion lleol i wella cyfraddau bwydo ar y fron

Ceir enghreifftiau rhagorol o arferion gorau yng Nghymru; fodd bynnag, mae'r rhain yn aml yn gyfyngedig i un ardal. Yr her yw rhannu a dyblygu modelau arferion gorau ar draws Cymru. Cyfrifoldeb pob aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliadau mamolaeth a blynyddoedd cynnar yw hyrwyddo diwylliant bwydo ar y fron cadarnhaol lle y mae menywod yn teimlo'n hyderus ac wedi eu grymuso i ddechrau bwydo ar y fron a dal ati. Mae egwyddorion gofal iechyd darbodus yn hyrwyddo: lleihau amrywiad a defnyddio arfer seiliedig ar dystiolaeth; bydd rhannu arferion gorau yn galluogi hyn ar draws ymarfer bwydo ar y fron ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau i deuluoedd. Roedd y grŵp gorchwyl a gorffen yn frwdfrydig iawn i gynnal gwaith uchel ei broffil ac i beilota, gwerthuso a chyflwyno gwaith newydd ac uchelgeisiol ar gyfer y boblogaeth gyfan yng Nghymru.

Enghreiffiau o arferion da yng Nghymru:

Cafodd y grŵp gorchwyl a gorffen wybod am nifer o wahanol fentrau a oedd yn ceisio gwella cyfraddau bwydo ar y fron. Dyma rai ohonynt:

Prifysgol Abertawe – Dysgu o brofiad i fyfyrwyr:

Sefydlodd darlithwyr Prifysgol Abertawe grŵp cymorth â bwydo ar y fron mewn caffi lleol, mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Abertawe, sy'n cynnig y lleoliad am ddim. Mae bydwaig gofrestredig ar gael fel tiwtor bydweigiaeth ym mhob sesiwn wythnosol ac mae myfyrwyr bydweigiaeth yn dysgu sut i gynnig cymorth a chyngor i famau mewn amgylchedd cymdeithasol anffurfiol. Mae bwydo ar y fron yn elfen greiddiol o hyfforddiant bydwragedd ac mae gan Brifysgol Abertawe fodel arloesol sy'n ei gwneud yn bosibl datblygu'r sgiliau craidd hyn, ac ar yr un pryd, cynnal y gwasanaeth clinigol a chysylltu addysg ag ymarfer.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Cymorth gan gymheiriaid

Er mwyn gwella'r gwasanaethau bwydo ar y fron ymhellach, mae'r gwasanaethau mamolaeth ac ymwelwyr iechyd wedi ymuno â'i gilydd i ddechrau cynllun cymorth ar gyfer bwydo ar y fron gan wirfoddolwyr cymheiriaid. Mae'r cynllun yn ymateb i geisiadau gan rieni a gyflwynwyd drwy'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod cymorth gan gymheiriaid wedi cael effaith gadarnhaol ar ba mor hir y mae mamau yn bwydo ar y fron, ac yn dewis bwydo ar y fron yn unig.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Cymorth penodol

Mae Caerdydd wedi datblygu tîm i gefnogi bwydo ar y fron o'r enw'r Tîm Seren, ac mae'r tîm hwn wedi datblygu gwasanaethau cymorth gan gynnwys:

- Gweithdai bwydo ar y fron cyn geni
- Cymorth arbenigol bwydo ar y fron sydd ar gael yn y ward ôl-enedigol
- Cynorthwywyr gofal mamolaeth cymunedol sy'n darparu cymorth â heriau bwydo ar y fron
- 3 chlinig yn y gymuned bob wythnos sy'n cynnig cymorth arbenigol

- Mae pob aelod o staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am fwydo ar y fron yn ategol i hyfforddiant cychwynnol 2 ddiwrnod (aelodau staff newydd) mewn cydweithrediad ag Ymwelwyr Iechyd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Gwasanaeth tafodrwym

Sefydlwyd clinig arbenigol Ilaetha yng ngogledd-orllewin Cymru yn 2002. Ers 2005 mae'r clinig, a gynhelir yn Ysbyty Gwynedd, Bangor wedi cynnig mynediad cyflym at wasanaeth rhyddhau tafodrwym. Arweinir y gwasanaeth hwn gan arbenigwr Ilaetha sy'n nyrs-fydwraig – mae hyn yn hanfodol gan ei fod yn sicrhau asesiad arbenigol cynhwysfawr sy'n sicrhau y gellir osgoi ymyraethau llawfeddygol diangen. Darperir y gwasanaeth mewn cydweithrediad â llawfeddygon a phediatryddon a'i nod yw cynnig ymateb cyflym i atgyfeiriadau er mwyn atal hyn rhag cael effaith negyddol ar famau a babanod, ac achosi i'r bwydo ar y fron fethu'n gynnar.

Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg – cymorth partneriaeth

Mae gan Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg Caerffili, sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r ganolfan Genedigaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, dîm bwydo ymatebol. Bydd y nyrsys meithrinfa, yr ymwelwyr iechyd a'r bydwagedd sy'n gweithio gyda'i gilydd ar y tîm, yn cysylltu â phob mam pan fydd hi'n mynd adref i gynnig cymorth â bwydo a phroblemau cysylltiedig megis colig, ymlynu a safle bwydo. Mae'r cymorth hwn ar gael yn ystod y mis cyntaf.

Argymhelliad 5:

Dylid datblygu cynllun gweithredu Cymru gyfan yn unol â pholisïau presennol Llywodraeth Cymru er mwyn darparu safonau ar gyfer arferion bwydo babanod ar draws lleoliadau i'r newydd-anedig, mamolaeth a blynyddoedd cynnar. Wrth ddatblygu'r cynllun, dylid casglu tystiolaeth a nodi ymyraethau effeithiol ar lefel y boblogaeth, gan ddefnyddio tystiolaeth ryngwladol pan fo ar gael. Darperir sicrwydd ansawdd drwy ddatblygu a monitro dangosyddion perfformiad allweddol.

Bydd y cynllun gweithredu hwn hefyd yn trafod materion cysylltiedig gan gynnwys adnabod tafodrwym a gwasanaethau atgyfeirio, rheoli alergeddau gan feddygon a nyrsys, pryder ynghylch ennill pwysau, rhagnodi meddyginiaethau a all effeithio ar fwydo ar y fron, a hefyd banciau Ilaeth.

Argymhelliad 6:

Bydd pob arweinydd strategol bwydo babanod yn datblygu, gweithredu a monitro cynllun gweithredu lleol a gaiff ei lywio yn unol â chynllun gweithredu Cymru gyfan er mwyn diwallu anghenion lleol. Bydd pob Bwrdd Iechyd yn darparu sicrwydd ar gyfer cynnydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol mewn byrddau perfformiad blynyddol.

Argymhelliad 7:

Bydd pob bwrdd iechyd yn darparu model cymorth cydgysylltiedig a fydd yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, cefnogwyr cymheiriaid, gwasanaethau a arweinir gan addysg a'r gymuned.

Asesu a gwerthuso

Cefndir

Yn ystod y degawd diwethaf, mae unedau mamolaeth, gwasanaethau ymwelwyr iechyd, unedau i'r newydd-anedig a darparwyr addysg bydwreigiaeth yng Nghymru

wedi bod yn ceisio ennill achrediad Menter Cyfeillgar i Fabanod. Mae'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod yn rhaglen fyd-eang gan Sefydliad Iechyd y Byd a UNICEF. Sefydlwyd y rhaglen ym 1992 i annog ysbytai mamolaeth i weithredu'r Deg Cam i Fwydo ar y Fron yn Llwyddiannus ac i ymarfer yn unol â'r Cod Rhyngwladol ar gyfer Marchnata Cynhyrchion yn Lle Llaeth o'r Fron. Ehangodd Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF y DU wedyn yr egwyddorion i gynnwys gwasanaethau gofal iechyd cymunedol a rhaglenni prifysgol ar gyfer bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd/nyrsio mewn iechyd cyhoeddus.

Yn 2012, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr, cafodd y safonau Cyfeillgar i Fabanod eu diweddaru i gynnwys datblygu perthynas rhwng rhiant a baban a datblygiad plentyn cynnar iawn, yn ogystal â rhagor o ofynion o ran sgiliau cyfathrebu'r staff. Cyflwynir y safonau newydd yn raddol i bob asesiad, a disgwyli'r cydymffurfiaeth lwyf erbyn Gorffennaf 2017.

Mae'r achrediad cychwynnol ar gyfer cyfleusterau Cyfeillgar i Fabanod yn cynnwys tri cham:

Cam 1: nod y weithdrefn gwerthuso yw sicrhau bod y polisïau, y canllawiau, yr wybodaeth a'r drefn sydd eu hangen ar waith er mwyn caniatáu i ddarparwyr gofal iechyd weithredu'r safonau Cyfeillgar i Fabanod yn effeithiol.

Cam 2: mae'n cynnwys asesu gwybodaeth a sgiliau'r staff.

Cam 3: mae'n asesu sut y gweithredir y safonau Cyfeillgar i Fabanod wrth ofalu am fenywod beichiog a mamau newydd.

Cynhelir ailasesiad ar ôl dwy flynedd er mwyn sicrhau y cedwir at y safonau.

Cynhelir asesiad parhaus bob tair-pum mlynedd â'r un nod o sicrhau y cedwir y safonau.

Adroddir ar gydymffurfiaeth ag achrediad Menter Cyfeillgar i Fabanod ar y cyd â data am fwydo ar y fron mewn byrddau perfformiad mamolaeth blynyddol, ond nid yw orfodol cydymffurfio â'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod. Ar hyn o bryd mae byrddau iechyd yn cynnig data ar gyfraddau bwydo ar y fron ar ôl geni, yn 10 diwrnod oed ac yn 6 wythnos oed. Cesglir yr wybodaeth hon gan Wasanaeth Cenedlaethol Gwybodeg Cymru a'i chyhoeddi ar wefannau Stats Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Trafodwyd y costau sy'n gysylltiedig ag achrediad Menter Cyfeillgar i Fabanod a'r adolygiad yn ddiweddar ar lefel byrddau iechyd, a chodwyd pryderon nad oedd y costau cynyddol yn cyd-fynd â gwelliant yn y cyfraddau bwydo ar y fron yn gyffredinol.

Argymhelliad 8:

Adolygu safonau addysg presennol sy'n gysylltiedig â bwydo babanod yn gydnaws ag adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o safonau Nyrsio a Bydwreigiaeth. Sicrhau bod bwydo ar y fron yn elfen greiddiol o hyfforddiant bydwreigiaeth, neonatoleg a phediatreg.

Argymhelliad 9:

Mae angen model sicrwydd ansawdd i osod a monitro safonau. Argymhellir cynnal arfarniad dewisiadau, ynghyd â dadansoddiad cost a budd o'r canlynol:

- Dewis 1: Cadw'r sefyllfa bresennol. Mae gan y byrddau iechyd gontractau unigol â'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod ar hyn o bryd os ydynt yn dymuno hynny, neu maent yn cynnal ffurf arall o sicrwydd ansawdd, yr adroddir arni wedyn mewn byrddau perfformiad blynyddol.
- Dewis 2: contract model "Unwaith i Gymru" ar draws mamolaeth, neonatoleg, ymwelwyr iechyd ac addysg, sy'n cynnwys gwerthusiad o ganlyniadau bob tair blynedd. Gofynnwyd i'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod gostio'r model hwn.
- Dewis 3: model adolygiad gan gymheiriaid (yn debyg i seiciatreg amenedigol), sy'n galluogi unedau i adolygu ei gilydd yn erbyn casgliad o safonau y cytunir arnynt. Byddai hyn yn darparu cyfleoedd i ddysgu ar y cyd a sicrhau cysondeb. Byddai angen mwy o gyllid cychwynnol i greu a sefydlu'r model.

Argymhellir bod yr arfarniad hwn o ddewisiadau yn cael ei gynnal gan y grŵp Bydwragedd Ymgynghorol mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid eraill.

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi consensws argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ei ystyried.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn nodi y dylai pob plentyn yng Nghymru gael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae teuluoedd a rhieni yn gwneud eu gorau glas i sicrhau hyn ac mae gennym ni fel darparwyr iechyd ddyletswydd i roi cymorth, gwybodaeth a sgiliau i alluogi hyn i ddigwydd.

Mae bwydo ar y fron yn fater amlweddol, ac ni ellir mynd i'r afael ag ef heb gamau gweithredu a chydweithio clir ar draws asiantaethau a meysydd proffesiynol. Hoffem ddiolch i'r grŵp gorchwyl a gorffen am eu brwdfrydedd, eu hangerdd a'u harbenigedd wrth greu'r argymhellion hyn. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cyfle i adeiladu ar sylfeini cryf a gwella mwy ar lwyddiant o ran bwydo ar y fron yng Nghymru.

Cyfeiriadau

1. Global strategy for infant and young child feeding. Geneva: World Health Organization; 2003
<http://apps.who.int/iris/bitstream/10665/42590/1/9241562218.pdf>
2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
<http://thewaleswewant.co.uk/sites/default/files/Guide%20to%20the%20WFGA%20ct.pdf>
3. Weng SF, Redsell SA, Swift JA, Yang M, Glazebrook CP. Systematic review and meta-analyses of risk factors for childhood overweight identifiable during infancy. Archives of Disease in Childhood. 2012; 97(12):1019-26.